**CABINET** CAB(17-18)32

**ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD**

**Decision sought**
**Gofyn am Benderfyniad**

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **Nodi argymhellion Adroddiad y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (yn atodiad A) a chytuno ar y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i wella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru;**

- **Cytuno mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad, y dylai pob ysgol a gynhelir ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb i'w dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (5-16 oed).**

## Cyflwyniad

1. Mae addysg rhyw a pherthnasoedd o safon uchel yn helpu i greu cymunedau ysgol lle y gall disgyblion dyfu, dysgu a datblygu perthnasoedd iach a chadarnhaol am oes.

2. Mae materion yn codi o hyd, a nodir isod, o ran ansawdd a chysondeb y ffordd y cyflwynir darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn ein hysgolion. Nodir y rhain ym mharagraff 11. Mewn ymateb, sefydlais y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a ystyriodd sut y gellid gwella'r ffordd y caiff y maes hwn ei addysgu. Mae'r papur hwn yn ceisio cytundeb mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad, i weithredu ar un o argymhellion hollbwysig y panel: y dylai fod yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb i'w dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (5-16 oed). Bydd y cytundeb hwn yn ein galluogi i'w gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad ar y papur gwyn ar gyfer y cwricwlwm newydd.

3. At ddibenion y papur hwn, cyfeirir at y maes pwnc fel Addysg Rhyw a Pherthnasoedd wrth gyfeirio at y ddarpariaeth bresennol ac Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb wrth gyfeirio at ddarpariaeth yn y dyfodol a'i statws statudol yn y cwricwlwm newydd. Caiff yr enw ei newid drwy'r canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y cwricwlwm presennol, pan gânt eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Yr enw fydd 'Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb' a gaiff ei chynnwys fel rhan statudol o'r cwricwlwm newydd, os cytunir ar y cynnig hwn. Ymhelaethir ar y mater hwn ym mharagraff 25 o'r papur hwn.

## Y Materion

4. Yn *Ffyniant i Bawb*, rydym yn cydnabod bod gwella iechyd meddwl yn un o'r pum maes â blaenoriaeth sydd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at ffyniant a lles yn yr hirdymor. Mae darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o safon uchel yn cyfrannu at y nod hwn drwy helpu pobl ifanc i ddatblygu'r adnoddau i ymdopi â'r byd o'u hamgylch sy'n newid yn gyflym. Mae'n eu helpu i feithrin amrywiaeth o berthnasoedd boddhaus yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd. Gall hefyd helpu athrawon i ymdrin â materion cymdeithasol ac emosiynol sydd, yn aml, yn anodd a nodi'r dysgwyr hynny y gallai fod angen mwy o gymorth arnynt.

5. Mae *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys cam gweithredu penodol ynglŷn â sut y gall ein cwricwlwm a'n trefniadau asesu newydd helpu ysgolion i roi ffocws gwirioneddol ac ystyrlon ar les a datblygu gwydnwch meddyliol plant a phobl ifanc. Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn gwella agweddau ar addysg sy'n cyfrannu at iechyd a lles dysgwyr. At hynny, mae'r naill a'r llall yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi lles o'r blynyddoedd cynharaf; gan gydnabod y rôl y gall profiadau unigolyn yn ystod plentyndod ei chwarae o ran llunio ei ddyfodol, gan effeithio ar y tebygolrwydd y bydd yn mynd yn ei flaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a bodlon.

## Y ddeddfwriaeth bresennol a darparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd

6. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob disgybl oedran ysgol uwchradd mewn lleoliadau a gynhelir gael addysg rhyw (adran 101(c) a (d) o Ddeddf Addysg 2002). Gall ysgolion cynradd ddarparu addysg rhyw ond mae hyn yn ôl disgresiwn eu cyrff llywodraethu. Mae'r diffiniad o addysg rhyw mewn deddfwriaeth yn cynnwys addysgu pynciau Clefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol a HIV/AIDS (adran 579 o Ddeddf Addysg 1996) ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. Mae'n rhaid i'r ysgol gyhoeddi polisi ysgrifenedig ar yr addysg rhyw y mae'n ei darparu (adran 404 o Ddeddf Addysg 1996).

7. Yn ogystal â'r elfen ddiffiniedig hon, mae'n rhaid i ysgolion gyflwyno agweddau ar addysg rhyw lle mae'n dod o dan raglenni astudio'r cwricwlwm cenedlaethol; er enghraifft, glaslencyndod ac atgenhedlu mewn gwyddoniaeth. Hefyd, mae'n rhaid i ysgolion ddarparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) rhwng 7-16 oed ac mae'r Fframwaith ABCh yn cynnwys thema iechyd a lles emosiynol. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith ABCh yn ddogfen anstatudol ac felly o ran addysg rhyw ac ABCh, mae gan ysgolion y rhyddid i benderfynu ar y cynnwys a'r dull cyflwyno, yn seiliedig ar y dogfennau canllaw ac anghenion eu dysgwyr.

8. Mae gan rieni yr hawl i dynnu eu plant yn ôl o addysg rhyw. Nid oes gan ddisgyblion hawl o’r fath i’w tynnu eu hunain yn ôl (adran 405 o Ddeddf Addysg 1996).

9. Mae addysg perthnasoedd eisoes yn rhan o’r Cyfnod Sylfaen, sy’n cwmpasu plant 3-7 oed. Mae’r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a’u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn y teulu a’r tu allan iddo. O CA2 (7 oed) ymlaen, gall ysgolion ddefnyddio’r *canllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion* a thema iechyd a lles emosiynol y Fframwaith ABCh i’w helpu i gynllunio’r agwedd ar eu darpariaeth sy’n ymwneud â chynllunio. Mae’r canllawiau ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a’r Fframwaith ABCh yn anstatudol.

10. Nododd y panel o arbenigwyr fod y diffiniad rhannol o addysg rhyw (sy’n cyfeirio at y ffaith bod addysg o’r fath yn cynnwys addysg ar glefydau a drosglwyddir yn rhywiol) o dan ddeddfwriaeth y cwricwlwm presennol yn tueddu i beri i ysgolion fabwysiadu ffocws cul, biolegol o fewn y ddarpariaeth. Felly, yn gyffredinol, nid yw pynciau ehangach Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn cael blaenoriaeth; gyda phrinder amser ac adnoddau a’r ffaith eu bod yn cael eu cyflwyno gan staff nad ydynt yn arbenigwyr. Roedd hyn hefyd yn un o ganfyddiadau adolygiad thematig Estyn o *Addysg Perthnasoedd Iach* (Gorffennaf 2017) a nododd hefyd nad oedd ysgolion yn neilltuo digon o amser nac yn rhoi digon o bwys ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a bod diffyg hyder a gwybodaeth ymhlith athrawon i ymateb i anghenion dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r problemau hyn yn unigryw i Gymru. Mae’r Alban a Lloegr yn adolygu eu darpariaeth gyfatebol o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Felly, mae’r cynnig ar gyfer darpariaeth statudol ond yn rhan o ddull cyfannol o wella’r maes hwn; gyda’r manylion am gamau gweithredu penodol yn cael eu hamlinellu’n ddiweddarach yn y papur hwn.

**Canfyddiadau’r Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

11. Cyhoeddodd y panel o arbenigwyr ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017. Tynnodd y grŵp amrywiaeth o ymchwil ryngwladol i arfer gorau ynghyd; gan ddangos sut y gall Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o safon uchel helpu pobl ifanc i ddatblygu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae’r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

    - Mae plant yn dysgu am berthnasoedd a materion cymdeithasol ehangach o ran rhywedd a rhywioldeb o oedran ifanc iawn. Felly, dylid cyflwyno darpariaeth effeithiol sy’n briodol o ran datblygiad o ddechrau addysg statudol er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr yn y profiadau hyn a rhoi lle iddynt eu trafod.

- Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol na'r canllawiau yn gyfredol mwyach. Nid yw'r trefniadau statudol presennol yn cydnabod yn ddigonol y materion diwylliannol ehangach, megis rhywedd, sy'n dod o dan y maes hwn; ac nid ydynt ychwaith yn ymdrin â blaenoriaethau megis atal trais domestig yn ddigonol.

- Mae darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhy gul, mae'r adnoddau yn wael a cheir prinder athrawon arbenigol. Mae ei ffocws yn rhy fiolegol yn aml ac nid yw'n ymateb i brofiadau dysgwyr. Nid yw ychwaith yn ystyried yr angen am gynwysoldeb; er enghraifft, i ddysgwyr sy'n uniaethu'n LGBT+ neu ddysgwyr anabl.

**Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd – I'w Gweithredu yn y Dyfodol**

12. Bwriadaf roi pwyslais o'r newydd ar bwysigrwydd Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb. Mae'n rhaid inni ddechrau newid agweddau tuag at ei darpariaeth a dangos i ysgolion, darparwyr dysgu proffesiynol ac asiantaethau cymorth ein bod o ddifrif am godi safonau.

13. Argymhelliad 1 y panel o arbenigwyr oedd y dylai addysg rhywioldeb a pherthnasoedd gael ei gwneud yn statudol (h.y. y dylai fod dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion i'w darparu. Gellid cyflawni hyn drwy osod dyletswydd yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Bydd y mesur hwn yn diogelu mynediad ein pobl ifanc at Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ac yn sicrhau y caiff yr ymgais hon i ehangu ei chwmpas, o ran y pynciau a addysgir, ei hadlewyrchu'n ymarferol.

14. Mae'n amlwg o adroddiad y panel o arbenigwyr y caiff plant, hyd yn oed o oedran ifanc iawn, eu hamlygu i gymhlethdodau perthnasoedd a rhywioldeb. Felly, mae o'r pwys mwyaf bod eu hanghenion yn cael eu nodi a'u bod yn cael cyfle i fynegi eu hunain; gyda rhagor o gymorth ar gael os oes angen.

15. Mae'r argymhelliad hwn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cynnig darpariaeth sy'n briodol o ran datblygiad i ddisgyblion 3-16 oed. Mae addysg statudol yn dechrau'n 5 oed, sy'n golygu y bydd y ddarpariaeth statudol hefyd yn dechrau ar yr oedran hwn. Felly, cynigiaf y dylid derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, fel y bydd pob ysgol a gynhelir yn darparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb i'w dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (5-16 oed).

16. Mae'n rhaid i ddarpariaeth yn ystod blynyddoedd cynnar addysg fod yn briodol o ran datblygiad ac adlewyrchu'r arfer gorau a welir ym maes dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol y Cyfnod Sylfaen. Y prif ffocws i'n dysgwyr iau fydd meithrin perthnasoedd iach a chadw'n ddiogel.

17. Drwy dderbyn yr argymhelliad hwn byddwn yn gallu gosod y darpariaethau hyn yn y Bil Cwricwlwm. Felly, byddant yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r Papur Gwyn. Byddwn yn mynd ati i ddatblygu polisi ar gyfer yr argymhelliad hwn fel rhan o'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm.

**Argymhellion y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd – I'w Gweithredu Ar Unwaith**

18. Er ei bod yn bwysig ein bod yn cynllunio ar gyfer cwricwlwm y dyfodol, mae'n hollbwysig hefyd ein bod yn ystyried sut y gallwn ddechrau'r broses o wella darpariaeth i'n cohort presennol o ddysgwyr.

19. Felly, bwriadaf dderbyn argymhellion eraill y panel o arbenigwyr mewn egwyddor, fel y gallwn ddechrau gweithio tuag at ddatblygu system addysg sy'n sicrhau mynediad at ddarpariaeth Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb sy'n gyson ac o safon uchel.

20. Cydnabu'r panel o arbenigwyr ac Estyn fod angen i athrawon gael cyfleoedd dysgu proffesiynol arbenigol. Mae hon yn elfen allweddol o ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb o safon uchel, gan ymarferwyr sydd, drwy hyfforddiant a chymorth, yn wybodus, yn hyderus ac yn gallu ymateb i brofiadau ac anghenion eu dysgwyr. Drwy hyn, byddwn hefyd yn gwella'r cymorth i'n gweithlu ymdrin â materion sensitif, megis atal trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

21. Yn ogystal â chodi safonau'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm presennol, bydd mwy o fynediad at ddysgu proffesiynol arbenigol yn cyfrannu at sicrhau bod ymarferwyr yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd. Rwyf eisoes wedi cymryd camau i gefnogi'r broses o weithredu'r argymhelliad hwn. O'r gyllideb eleni, byddaf yn darparu swm ychwanegol o £250,000 i gynorthwyo ysgolion. Yn ogystal â'r cyllid presennol ar gyfer dysgu proffesiynol, rwyf wedi darparu swm arall o £200,000 i'r consortia er mwyn cefnogi'r gwaith o uwchsgilio athrawon ac rwyf hefyd wedi darparu £50,000 tuag at ddatblygu adnoddau newydd.

22. Mae fy swyddogion wedi dechrau trafodaethau cynnar ar wella addysg a dysgu proffesiynol athrawon. Bydd y rhain yn parhau i sicrhau ein bod yn rhoi llwybr cadarn, cydgysylltiedig ac addas at y diben ar waith a all gefnogi a gwella darpariaeth mewn ysgolion yn effeithiol.

23. Byddaf yn gwneud datganiad llafar yn ystod yr wythnosau nesaf, gan dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion a gyflwynwyd gan y panel o arbenigwyr.

24. Cydnabu'r panel o arbenigwyr hefyd, er bod y canllawiau presennol *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion (2010)*, yn gynhwysfawr, nad oeddent yn gyfredol mwyach. Felly, yn ogystal â derbyn argymhellion y panel mewn egwyddor, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddiweddaru'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchel a amlinellir yn adroddiad y panel o arbenigwyr. Mae angen canllawiau sy'n helpu ysgolion i ymdrin yn hyderus â nifer o faterion sy'n berthnasol i ddysgwyr modern, e.e. cydsyniad, tegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau a hunaniaethau LGBT+ a phriodas o'r un rhyw.

25. Rhan o Argymhelliad 1 y panel o arbenigwyr yw y dylid ailenwi addysg rhyw yn Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd. Y diben yw defnyddio diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o rywioldeb, gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch. Rwy'n cefnogi hyn am ei fod yn annog ysgolion, wrth iddynt gynllunio eu darpariaeth, i ystyried y materion cymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol ehangach a all effeithio ar ein gallu i feithrin perthnasoedd iach a sicrhau iechyd meddwl da. Fodd bynnag, er fy mod o blaid newid enw, rwy'n cynnig y dylid defnyddio'r enw "Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb", sy'n dangos pwysigrwydd perthnasoedd iach ac yn adlewyrchu cronoleg addysgu'r pwnc yn well. Caiff y newid hwn ei wneud fel rhan o'r broses o ddiweddaru'r canllawiau presennol.

26. Mae Argymhelliad 10 y panel o arbenigwyr yn cynnig y dylid creu nod rhagoriaeth i ysgolion er mwyn cydnabod dulliau gweithredu ysgol gyfan rhagorol yn y maes hwn, gan gynnwys cydraddoldeb a thegwch rhwng y rhywiau. Mae fy swyddogion wedi gweithio mewn partneriaeth â'u cyd-swyddogion yn yr Adran Iechyd sy'n gyfrifol am bolisïau o ran Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Mae dangosyddion Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn cynnwys categori ar ddatblygiad personol a pherthnasoedd. O fewn y categori hwn mae maen prawf bod yn rhaid i ysgolion roi polisi ar waith sy'n dilyn canllawiau cenedlaethol a lleol. Drwy ddiweddaru'r canllawiau presennol er mwyn canolbwyntio ar faterion megis tegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau, bydd yn ymgorffori'r pynciau hyn mewn polisïau a dysgu i'r ysgolion hynny sy'n gweithio tuag at ennill gwobr ansawdd.

27. Bydd ysgolion yn parhau i gael eu cefnogi i gyflwyno agweddau ar Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb drwy'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD), a gyflwynwyd gennyf yn 2016. Hon yw'r elfen gyntaf o'r cwricwlwm newydd i fod ar gael i ysgolion. Mae'r FfCD yn cynnwys maes dinasyddiaeth sy'n galluogi ysgolion i ymdrin â phynciau megis iechyd a lles a bwlio ar-lein.

## Yr Effaith ar Ddiwygio'r Cwricwlwm

28. Yn *Dyfodol Llwyddiannus*, argymhellodd yr Athro Donaldson y dylai Cymraeg ac Addysg Grefyddol barhau'n elfennau statudol o'r cwricwlwm. Os cytunir ar y

cynnig hwn ynglŷn ag Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb i'r Cabinet, bydd hefyd yn rhan statudol o'r cwricwlwm. Fel Addysg Grefyddol, mae'r maes astudiaeth hwn mewn sefyllfa fregus yn y cwricwlwm presennol ac rwy'n pryderu na fyddai modd cyflawni'r gwelliannau yr hoffem eu gweld heb status statudol.

29. Bydd fy swyddogion, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, yn mynd ati i ddatblygu'r meysydd canlynol:

- p'un a fydd y ddyletswydd bresennol i ddarparu addysg rhyw i ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd yn parhau ac a fydd yn cyd-redeg ag Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb neu a gaiff ei dileu a'i disodli'n gyfan gwbl gan Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb;

- p'un a ddylid diwygio'r hawl bresennol i riant dynnu ei blentyn yn ôl o addysg rhyw, a sut. Bydd hyn yn cynnwys ystyried datblygiadau yng ngwledydd eraill y DU; er enghraifft, mae'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal yn Lloegr yn cynnig y dylid cadw'r hawl i dynnu plentyn yn ôl o addysg rhyw ond na ddylai fod yn gymwys i addysg ar berthnasoedd;

- p'un a ddylid diwygio pŵer Gweinidogion Cymru i roi canllawiau, a sut; a

- bydd Ysgolion Arloesi hefyd yn gweithio ar y ffordd y dylid ymgorffori darpariaeth Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd.

30. Bydd yr ymrwymiad i wneud Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn ddarpariaeth statudol yn cefnogi un o bedwar diben y cwricwlwm newydd, gan sicrhau bod dysgwyr yn datblygu'n unigolion iach a hyderus, sy'n meithrin perthnasoedd cadarnhaol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd, a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Hefyd, mae'r newid i Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn gwneud y maes pwnc yn fwy cyson ag amcan cyffredinol y cwricwlwm newydd. Mae'n annog meddwl beirniadol, yn meithrin gwydnwch a hwyluso cysylltiadau ar draws y cwricwlwm; e.e. yr agweddau hanesyddol cymdeithasol ar rywedd (gan gysylltu ag argymhellion 2 a 3 y panel o arbenigwyr).

## Risgiau

31. Mae penderfyniad i roi status statudol penodol i Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn dwyn risgiau posibl. Cyfeirir at ryw a pherthnasoedd yn *Dyfodol Llwyddiannus*, ond dim ond fel elfen o MDPh Iechyd a Lles. Nid yw'r adroddiad yn argymell y dylid rhoi statws statudol penodol i ryw a pherthnasoedd o dan y trefniadau newydd. Efallai y bydd grwpiau diddordeb arbennig sy'n cynrychioli pynciau nad ymdrinnir â hwy yn benodol yn *Dyfodol Llwyddiannus* (e.e. cymorth

cyntaf, cynhwysiant ariannol) yn ystyried hyn yn arwydd bod modd diwygio neu ychwanegu at y cwricwlwm newydd ymhellach; gan esgor ar y posibilrwydd o lobïo. Gall y ddadl dros wrthod ceisiadau eraill i newid y cwricwlwm, gan nifer o randdeiliaid ar faterion eraill, gael ei rhoi yn y fantol. Gall olygu y bydd unrhyw ddeddfwriaeth a osodir ar gyfer y cwricwlwm newydd yn agored i her gan y grwpiau diddordeb hyn, gan achosi oedi cyn ei weithredu o bosibl.

32. Yn yr un modd, drwy beidio â chynnwys Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, sy'n statudol ar hyn o bryd, yn y Papur Gwyn, cyfyd y risg y caiff ei herio gan randdeiliaid sy'n dadlau o blaid addysgu am faterion megis iechyd rhywiol, trais yn erbyn menywod a materion LGBT; gyda llawer ohonynt yn aelodau o'r Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

33. Os bydd y Cabinet yn cytuno i'r egwyddor y dylid gweithredu ar ddarpariaeth Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb statudol (Argymhelliad 1), bydd yn destun ymgynghoriad fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm newydd.

34. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Prif Weinidog a'r Cabinet, cynigir ar hyn o bryd y bydd y Bil Cwricwlwm ac Asesu ym Mlwyddyn 4 o'r Rhaglen Ddeddfwriaethol. Yr amserlen ar gyfer y Bil yw y dylai pob cyfarwyddyd polisi gael ei gyflwyno i'r Gwasanaethau Cyfreithiol erbyn mis Gorffennaf 2018. Cynigir hefyd y caiff Papur Gwyn yn amlinellu'r cynigion manwl ar gyfer y cwricwlwm newydd (a'r trefniadau asesu) ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2018. Mae swyddogion polisi wedi fy hysbysu eu bod yn hyderus y bydd y cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn cael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2018 yn unol â'r amserlen ddeddfwriaethol ddrafft gyfredol.

**Yr effaith ar bolisi ehangach**

35. Nododd adroddiad y panel o arbenigwyr ac adolygiad thematig Estyn o Addysg Perthnasoedd Iach fod diffyg hyfforddiant arbenigol yn rhwystr i ysgolion, gan gynnwys pynciau megis trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol o fewn eu darpariaeth.

36. Bydd mynediad at Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb o safon uchel yn helpu dysgwyr i gynnal iechyd emosiynol a meddyliol da; gan gyfrannu at wella eu deilliannau addysgol a deilliannau ehangach mewn bywyd.

**Yr effaith ar ddeddfwriaeth**

37. Fel y nodwyd yn gynharach, mae adran 101(1) (c) ac (ca) o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i bob lleoliad uwchradd a gynhelir ddarparu addysg rhyw i ddisgyblion o oedran ysgol uwchradd. Mae gan ysgolion y rhyddid i benderfynu ar y cynnwys a'r dull a ddefnyddir i gyflwyno addysg rhyw, yn seiliedig ar

anghenion eu dysgwyr. Mae'n rhaid i'r ysgol gyhoeddi polisi ysgrifenedig ar yr addysg rhyw y mae'n ei darparu (adran 403 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996")). Pan gaiff addysg rhyw ei darparu, mae'n rhaid ei darparu yn y fath fodd fel ei bod yn annog y disgyblion hynny i roi sylw priodol i ystyriaethau moesol a gwerth bywyd teuluol (adran 403 (1) o Ddeddf 1996).

38. Mae gan ysgolion cynradd y disgresiwn i ddarparu Addysg Rhyw, ond nid oes rhwymedigaeth ddeddfwriaethol arnynt i wneud hynny. Os bydd yr ystod oedran ar gyfer darparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb statudol yn dechrau'n 5 oed, byddwn yn creu dyletswydd ar ysgolion cynradd nad oes arnynt ar hyn o bryd o dan drefniadau'r cwricwlwm presennol.

39. Yn ymarferol, defnyddir y term addysg rhyw a pherthnasoedd yn llawer mwy cyffredin gan ysgolion nag Addysg Rhyw. Mae hyn yn adlewyrchu'r ystod o ddysgu a chymorth a ddarperir ganddynt o ran yr agweddau emosiynol, corfforol a chymdeithasol ar berthnasoedd, iechyd rhywiol a lles. Mae hyn yn adlewyrchu'r derminoleg a ddefnyddir gan ysgolion ac yn cydnabod y ffordd y mae'r pwnc wedi datblygu dros amser.

40. At hynny, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau, y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu a Phenaethiaid eu hystyried, gyda'r nod o sicrhau pan gaiff addysg rhyw ei rhoi i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir–

   a. eu bod yn dysgu am natur priodas a'i phwysigrwydd i fywyd teuluol a magu plant (byddai'r cyfeiriad at briodas hefyd yn gynnwys priodas o'r un rhyw bellach),

   b. eu bod yn cael eu diogelu rhag dysgu a deunyddiau sy'n amhriodol o ran oedran a chefndir crefyddol a diwylliannol y disgyblion dan sylw (adran 403(1A) o Ddeddf 1996)

41. Gall ysgolion cynradd gyflwyno addysg rhyw ond mae hyn yn ôl disgresiwn eu cyrff llywodraethu. Ar hyn o bryd, mae hefyd hawl statudol i rieni yn unig dynnu eu plant yn ôl o addysg rhyw ac eithrio o'r elfennau statudol sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol e.e. gwyddoniaeth (adran 405 o Ddeddf 1996).

42. Mae cyfraith achos wedi cadarnhau y gall fod yn gymesur mynnu rhoi gwersi addysg rhyw gorfodol hyd yn oed lle y gallai hyn arwain at ddysgu nad yw'n cydymffurfio â daliadau crefyddol y rhieni[1]. Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol o'r farn bod egwyddor dysgu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb sy'n briodol i oedran ac aeddfedrwydd plant yn orfodol yn gydnaws â'r hawliau dynol a ddiogelir o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("Hawliau'r Confensiwn"). Bydd y

[1] Dojan ac eraill v Germany (cais Rhif 319/08, 2455/08, 7908/10, 8152/10 ac 8155/10).

Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio gyda'u cyd-swyddogion polisi er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn.

43. Bydd angen gwneud gwaith cyfreithiol pellach o ran p'un yw hawl rhiant i dynnu plentyn yn ôl yn dal yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. Nid yw'r Gwasanaethau Cyfreithiol wedi llunio barn derfynol ond maent yn tueddu i ffafrio'r farn, os bydd hawl i eithrio yn parhau, y dylai fod yn arferadwy gan blant sy'n ddigon aeddfed ac sydd â digon o ddealltwriaeth a gwybodaeth i benderfynu ar y mater eu hunain. Hyd nes bod plentyn yn gallu penderfynu ar y mater drosto'i hun dylai fod yn arferadwy gan y rhiant. Cyfyd materion tebyg o ran yr hawl i dynnu yn ôl o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Bydd y Gwasanaethau Cyfreithiol yn gweithio gyda'u cyd-swyddogion polisi er mwyn ystyried y materion hyn yn fanwl wrth i'r polisi hwn ddatblygu. Bydd angen hefyd i'r Gwasanaethau Cyfreithiol ystyried p'un a oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol o ran y ffocws ar bwysigrwydd priodas (yn hytrach na pherthnasoedd sefydlog, hirdymor y tu allan i briodas, dyweder) i fywyd teuluol a magu plant.

**Gofynion Cyllid a'r Goblygiadau o ran Llywodraethu**

44. Gofynnir i'r Cabinet gytuno ar yr egwyddor y dylai darpariaeth statudol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei chynnwys at ddibenion ymgynghori pellach fel rhan o'r Papur Gwyn ar y cwricwlwm. Nid yw'r cyngor hwn yn gofyn am ymrwymiad i unrhyw gamau gweithredu penodol mewn perthynas â pholisi o ran addysg rhyw a pherthnasoedd ac felly nid yw'n gofyn i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu cyllid. Os cytunir ar hyn ar ôl ymgynghori mae'n debygol y caiff datblygiad polisi o ran y ddarpariaeth statudol ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb ei ystyried fel rhan o'r broses gyffredinol o ddiwygio'r cwricwlwm. Caiff costau ar gyfer datblygu dysgu proffesiynol ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb eu cynnwys yn y pecyn dysgu proffesiynol cyffredinol ar gyfer y cwricwlwm newydd ac felly ni ddisgwylir y bydd costau yn ychwanegol at hyn.

45. Darparwyd £250,000 o'r Prif Grŵp Gwariant Addysg yn 2017/18 er mwyn helpu'r consortia i ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ac adnoddau i gefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (cyfeirir ato yn MA-P/KW/0693)

46. Gan nad oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb, nid oes angen i'r Uned Llywodraethu Corfforaethol ei gymeradwyo ymlaen llaw.

47. Yn unol ag FN 01/15 anfonwyd copi o'r cyngor hwn i flychau postio'r Uned Lywodraethu Corfforaethol a Chynllunio Ariannol at ddibenion monitro.

48. Gellir talu am unrhyw gostau gweinyddu cysylltiedig o gyllideb Cost Rhedeg Dirprwyedig yr AGC.

49. Mae Tîm Gweithrediadau AGC yn fodlon bod y Cyngor Gweinidogol hwn yn cydymffurfio â Hysbysiad Cyllid Interim 01/2015 (EPS/KW/19/18).

50. Mae Cyllidebu Strategol wedi cymeradwyo’r cyngor hwn (SB/0391/5).

**Ymchwil ac / neu Ystadegau**

51. Ni chynhwysir unrhyw ystadegau yn y papur hwn.

**Cyfathrebu a chyhoeddi**

52. Caiff datganiad llafar mewn ymateb i argymhellion y panel o arbenigwyr ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Argymhelliad:**

**y dylai’r Cabinet nodi argymhellion Adroddiad y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (yn atodiad A) a chytuno ar y camau gweithredu rydym yn eu cymryd i wella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru.**

**y dylai’r Cabinet gytuno mewn egwyddor, yn amodol ar ymgynghoriad, y dylai pob ysgol a gynhelir ddarparu Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb i’w dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (5-16 oed).**

**Gweithio Cydgysylltiedig**

53. Cydnabyddir y gall amlygiad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gael effaith negyddol ar les dysgwyr, eu cyflawniad addysgol a’u deilliannau mewn bywyd. Felly, mae’n bwysig bod ysgolion yn dod yn ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac yn ystyried y cwricwlwm a’r cymorth y maent yn ei roi i ddisgyblion o safbwynt hynny. Yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl*, ymrwymais i roi blaenoriaeth i gyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon er mwyn iddynt ddod yn ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod;

gyda'r nod o leihau'r risg y bydd heriau yn ystod plentyndod yn datblygu'n anawsterau hirdymor pan fydd plant wedi tyfu'n oedolion.

Bydd datblygiad dysgu proffesiynol o ran Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb yn cefnogi'r flaenoriaeth hon. Mae dysgu proffesiynol yn allweddol i feithrin hyder athrawon, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i ymateb yn well i brofiadau dysgwyr a hwyluso dull gweithredu ysgol gyfan o gefnogi lles; gan gynnwys sut y gallant weithio'n agos â strwythurau cymorth y tu allan i'r ysgol. Bydd hyn yn cyfrannu at greu gweithlu a all nodi'r dysgwyr hynny sy'n cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn well, gwybod sut i roi cymorth cadarnhaol iddynt a sut i gael gafael ar ragor o gymorth.

Mae fy swyddogion sy'n gyfrifol am MDPh Iechyd a Lles yn gweithio gyda'u cyd-swyddogion o'r Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, adrannau eraill o'r Llywodraeth a Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i helpu cymunedau ysgol i ddod yn fwy ymwybodol ohonynt wrth eu gwaith.

54. Bydd darpariaeth statudol ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb, ynghyd â gwelliannau i gyfleoedd dysgu proffesiynol, yn paratoi ein gweithlu i ymdrin â phrofiadau ac anghenion eu dysgwyr yn well. Drwy feithrin hyder a gwybodaeth athrawon o ran pynciau sensitif sydd, yn aml, yn codi yn y maes hwn, rydym yn gobeithio eu hannog i ymgysylltu â materion megis atal trais domestig.

Mae dysgu proffesiynol o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eisoes ar gael i nifer o sefydliadau yng Nghymru ac mae gan y sector gyfoeth o arbenigedd a phrofiad a all helpu i lywio Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb mewn ysgolion yn y dyfodol.

55. Mae swyddogion yn yr Adran Addysg wedi ymgysylltu â'u cyd-swyddogion yn Is-adran Iechyd y Cyhoedd i sicrhau bod cysondeb rhwng y cynlluniau i weithredu ar argymhellion y panel o arbenigwyr a pholisïau sy'n bodoli eisoes o ran Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Mae'r gwaith partneriaeth hwn wedi nodi camau gweithredu y gellir eu cymryd o ran argymhelliad 10, o ran nod rhagoriaeth posibl ar gyfer Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb a fydd yn ein galluogi i ymgorffori newidiadau i'r canllawiau presennol, megis rhoi mwy o ffocws ar bynciau megis tegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau, yn y meini prawf ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

**Kirsty Williams**

**CABINET**

CAB(17-18)32

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Mawrth 2018**

Drafftiwyd gan Steven Price, yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Cymeradwywyd gan

**Atodiad A**

**Crynodeb o ganfyddiadau'r Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd**

**Maes Allweddol 1: Diffiniad, statws a chanllawiau**

**Argymhelliad 1:** Dylid newid enw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd. Bydd y diffiniad newydd hwn yn dilyn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o 'rywioldeb', gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch.
Gwneud Addysg Rhywioldeb a Pherthnasoedd yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer pob ysgol (3-16 oed) yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

Datblygu canllawiau statudol newydd ar gyfer y Cam Sylfaen, Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yn seiliedig ar yr egwyddorion craidd yn argymhelliad 2.

**Maes Allweddol 2: Cynnwys y Cwricwlwm, Addysgeg ac Asesu**

**Argymhelliad 2:** Dylai Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd a'r meysydd thematig canlynol gyda deilliannau dysgu clir a all esblygu er mwyn cyflawni materion a gwybodaeth fiolegol, gymdeithasol, diwylliannol a thechnolegol newidiol.

Ymysg yr egwyddorion craidd mae'r canlynol: Hawliau a Thegwch Rhwng y Rhywiau; Creadigol a Chwilfrydig; Grymuso a Thrawsnewidiol; yn Seiliedig ar Brofiadau ac wedi'i Gyd-gynhyrchu; yn gyfannol; yn gynhwysol; yn Amddiffynnol ac Ataliol.

**Argymhelliad 3:** Dylai'r Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod yn ymgysylltiol, perthnasol ac yn briodol o ran datblygiad gyda llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgu a phrofiad.

**Argymhelliad 4:** Dylai ysgolion arloesi, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol, archwilio sut y gellir cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn 'dull gweithredu ysgol gyfan'.

**Argymhelliad 5:** Dylid rhoi'r un statws i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Dylai Addysg Rhyw a Pherthnasoedd hefyd gael yr un statws â meysydd eraill o fewn Iechyd a Llesiant a'r Meysydd Dysgu a Phrofiad ehangach, yn cynnwys trefniadau asesu cadarn sy'n cefnogi llais disgyblion.

**Maes Allweddol 3: Hyfforddiant a Safonau**

**Argymhelliad 6:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu llwybr datblygiad proffesiynol ar gyfer Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, yn benodol ar gyfer pob cam o addysg, i'w gynnwys mewn addysg gychwynnol athrawon a chyrsiau dysgu proffesiynol.

Byddai'r llwybr hwn yn rhoi cyfle iddynt wella eu datblygiad proffesiynol ac arbenigo mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gan roi cyfle i'r gweithlu gael cymhwyster lefel Meistr mewn Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

**Argymhelliad 7:** Dylai pob ysgol gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd arbenigol hyfforddedig gyda'r gallu i fanteisio ar adnoddau a chanllawiau i gydlynu cwricwlwm sy'n seiliedig ar hawliau a thegwch rhwng y rhywiau. Dylid neilltuo yr un faint o oriau i'w gyflwyno ym mhob cyfnod allweddol â phynciau eraill y cwricwlwm. Dylai'r rôl hon gynnwys ymgorffori Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

**Argymhelliad 8:** Dylai pob Awdurdod Lleol, gan weithio gyda Chonsortia, gael arweinydd Addysg Rhyw a Pherthnasoedd penodol i roi cymorth allanol, i gydlynu DPP a sicrhau cysondeb ac ansawdd gan gydnabod y gall sefydliadau allanol arbenigol sy'n cynnwys darparwyr sydd wedi cael hyfforddiant addysgol, yn cynnwys yn y sector AB ac AU, wella cynnwys y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r broses o'i weithredu mewn dull gweithredu ysgol gyfan.

**Argymhelliad 9:** Dylai Estyn adeiladu ar newidiadau diweddar i'r fframwaith arolygu er mwyn ystyried y broses o arolygu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan o'r broses o sicrhau bod y trefniadau arolygu newydd yn addas ar gyfer y cwricwlwm newydd.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sefydlu nod rhagoriaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn amlygu dulliau gweithredu ysgol gyfan rhagorol mewn perthynas â thegwch a chydraddoldeb rhwng y rhywiau ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.

**Maes Allweddol 4: Ymchwil a Chymorth**

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Parth Hwb Addysg Rhyw a Pherthnasoedd er mwyn cefnogi Addysg Rhyw a Pherthnasoedd o ansawdd uchel mewn ysgolion a gwasanaethu rhwydwaith ymchwil, ymarfer a hyfforddiant Addysg Rhyw a Pherthnasoedd, gyda'r nod o hwyluso'r broses o ddarparu'r gwaith ymchwil diweddaraf a chreu cymuned ymarfer Addysg Rhyw a Pherthnasedd yng Nghymru.